

Ffugenw: Tylluan Las

Cystadleuaeth 93: Y Gwyliau Perffaith

Annwyl David,

"Sawatdee" o Wlad Thai a'n gwyliau ymddeol perffaith annisgwyl!

Ti'n gwybod bod dy dad a fi wedi bod yn siarad am blymio, heicio, bwyta, ac ymlacio ar y traeth yn *Phang Nga* ers talwm...ond wnaethon ni fwcio ein gwesty yn *Koh Phangan*. Mae hi'n ynys fach 300 cilometr i ffwrdd!

Yn waeth ~~tyth~~, tymor brig oedd o—roedd popeth wedi'i fwcio! Roedd rhaid i ni wneud y gorau o'r gwaethaf a bodio yng nghefn lori bicyp! Daeth ein gwyliau yn antur!

Dan ni'n gwneud rhywbeth cyffrous bob dydd rŵan. Aethon ni i'r Parti Lleuad ~~L~~awn hyd yn oed! Dan ni'n teimlo mor ifanc!

Dan ni wrth ein bodd yma ac yn bwriadu aros. Mae'r bobl yn hyfryd, mae'r tywydd yn braf, ac mae'na "sanwk" yma sy'n debyg i'n hwyl! Dan ni wedi rhentu bwthyn ac wedi dechrau gwersi Thai.

Dylech chi gyd ddod i ymweld!

Cariad,

Mam